Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# STRATEGAETH ARCHWILIO TIR HALOGEDIG

Diwygiad 2025


## Crynodeb

Y ddogfen hon yw'r bedwaredd fersiwn o'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ac mae'n disodli'r drydedd fersiwn a gyhoeddwyd yn 2015. Diben y ddogfen yw amlinellu'n glir strategaeth y Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â materion halogi. Bydd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed wrth roi strategaethau blaenorol ar waith ac yn rhoi sylw i unrhyw newidiadau yn y strategaeth yn y dyfodol.

# Chapter 1 Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2
2. Nodweddion Sir Gaerfyrddin ........ 6
3. Cysylltiad â Pholisïau Presennol ........ 8
4. Cynnydd y Strategaeth ........ 9
5. Nodau, Amcanion a Blaenoriaethau'r Strategaeth ........ 10
6. Rhoi'r Strategaeth ar Waith ........ 12
7. Rheoli Gwybodaeth a Gweithdrefnau ........ 15

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Strategaeth Archwilio Tir Halogedig

1.1.1 Cafodd Rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Rhan 2A) ei chyflwyno drwy ddeddfiad 2001 Adran 57 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Cyflwynodd Rhan 2A ddull systematig o fynd i'r afael â materion tir halogedig.

1.1.2 Yng Nghymru, nod Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006 (a gafodd eu cyflwyno yn 2001 a'u diwygio wedi hynny) yw nodi a lliniaru risgiau halogiad tir.

1.1.3 Mae Rhan 2A yn gosod rhwymedigaeth statudol ar bob Awdurdod Lleol i ddatblygu strategaeth ar gyfer nodi a rheoli tir halogedig sydd yn ei awdurdodaeth.

1.1.4 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth archwilio adran Diogelu'r Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn unol â gofynion Rhan 2A, gan fanylu ar nodau, amcanion, blaenoriaethau a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer nodi ac adfer safleoedd halogedig yn y sir.

1.1.5 Bydd y Strategaeth hon yn cael ei hadolygu yn 2030, oni bai bod amgylchiadau annisgwyl yn golygu bod angen ei hadolygu'n gynharach.

## 1.2 Diffiniad o Dir Halogedig

1.2.1 Disgrifir 'Tir Halogedig' yn Rhan 2A fel a ganlyn: *"Any land which appears to the Local Authority in whose area it is situated to be in such a condition, by reason of substances in, on or under the land, that:*

a) *Significant harm is being caused or there is a significant possibility of such harm being caused; neu*
b) *Pollution of controlled waters is being or is likely to be caused."*

Mae'r diffiniad hwn yn dibynnu ar y cysyniad o 'gysylltiad â llygrydd,' sy'n cynnwys tair rhan: ffynhonnell, llwybr a derbynnydd (gweler Mewnosodiad 1).




**Mewnosodiad 1:** cynrychiolaeth weledol o elfennau 'cysylltiad â llygrydd'.

1.2.2 Nid yw presenoldeb halogion yn unig mewn neu o dan ardal benodol o dir yn ddigon i'r tir hwnnw gael ei bennu'n 'Dir Halogedig' fel y diffiniwyd yn Rhan 2A. Mae'n rhaid iddo gael cysylltiad wedi'i gadarnhau â llygrydd, gan ddangos ffynhonnell, llwybr a derbynnydd gyda niwed sylweddol amlwg neu bosibl.

1.2.3 Mae'r termau 'niwed sylweddol', 'niwed', a 'llygredd i ddyfroedd a reolir' wedi'u diffinio yng Nghanllawiau Statudol Tir Halogedig 2012 Llywodraeth Cymru.

**1.3 Amcanion Llywodraeth Cymru**

1.3.1 Mae nodau sylfaenol polisi Llywodraeth Cymru ynghylch tir halogedig wedi'u nodi yn adran 1.4 o Ganllawiau Statudol Tir Halogedig 2012, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y "canllawiau statudol". Yr amcanion hyn yw:

- Nodi a dileu risgiau annerbyniol i iechyd dynol ac i'r amgylchedd.
- Ceisio sicrhau bod tir halogedig yn addas ar gyfer ei ddefnydd cyfredol.
- Sicrhau bod y beichiau a wynebir gan unigolion, cwmnïau a chymdeithas yn gymesur, yn rhai y gellir eu rheoli ac yn gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

1.3.2 Mae Adran 1.5 o'r canllawiau statudol yn nodi bod trefn Rhan 2A yn un o sawl ffordd y gellir mynd i'r afael â halogiad tir, ac y dylai awdurdodau gorfodi geisio defnyddio Rhan 2A dim ond os nad oes datrysiad priodol arall. Er enghraifft, gellir mynd i'r afael â halogiad tir pan fydd tir yn cael ei ddatblygu (neu ei ailddatblygu) o dan y drefn gynllunio, yn ystod y broses rheoli adeiladu, neu pan fydd tirfeddianwyr yn cymryd camau annibynnol.

**1.4 Rheoleiddio Tir Halogedig**

1.4.1 Awdurdodau Lleol yw'r prif reoleiddiwr o dan Ran 2A a rhaid iddynt archwilio eu hardaloedd ar gyfer Tir Halogedig, gan flaenoriaethu materion difrifol a sicrhau camau gweithredu cymesur. Maent yn gyfrifol am:

- Llunio, diwygio, a gweithredu Strategaeth Archwilio Tir Halogedig.
- Gorfodi rheoliadau ar gyfer tir halogedig, ac eithrio "safleoedd arbennig" fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru).
- Cyfeirio "Safleoedd Arbennig" at Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chydweithio ar ymchwiliadau a gwaith adfer.
- Archwilio a gwerthuso'n strategol dir a allai fod yn halogedig.
- Cynnal a diweddaru cronfa ddata'r Cyngor o safleoedd a allai fod yn halogedig.
- Penderfynu a yw safle'n bodloni'r diffiniad statudol o dir halogedig.
- Mynnu a gwirio gwaith adfer effeithiol gan bartïon cyfrifol.

1.4.2 Mae CNC yn ymgymryd â rôl reoleiddiol eilaidd, gan ddarparu cymorth i awdurdodau lleol o fewn y drefn. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys gweithredu fel rheoleiddwyr

arweiniol ar gyfer llygru neu halogi Dyfroedd a Reolir, yn ogystal â goruchwylio Camau Gorfodi ar gyfer 'Safleoedd Arbennig'.

1.4.3 Mae "safleoedd arbennig" yn cael eu categoreiddio felly oherwydd eu heriau unigryw. Ar ôl cael ei ddynodi'n "dir halogedig" gan yr awdurdod lleol, gall safle gael ei ddosbarthu'n safle arbennig os yw'n bodloni'r meini prawf a amlinellir yn Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru). Mae CNC yn gwasanaethu fel yr awdurdod gorfodi ar gyfer safleoedd arbennig, sy'n gallu cwmpasu tir sydd:

- yn effeithio'n ddifrifol ar ddŵr yfed, dŵr wyneb neu ffynonellau dŵr daear pwysig,
- wedi cael ei ddefnyddio neu'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai gweithgareddau diwydiannol, megis puro olew neu wneud ffrwydron,
- yn cael ei reoleiddio neu wedi cael ei reoleiddio gan ddefnyddio trwydded a roddwyd o dan y drefn atal a rheoli llygredd neu'r drefn rheoli llygredd mewn ffordd integredig,
- wedi cael ei ddefnyddio i gael gwared â tharau asid gwastraff,
- yn eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn neu'n cael ei feddiannu ganddi,
- wedi'i halogi gan ymbelydredd, ac;
- yn safle niwclear.

1.4.4 Ym mis Gorffennaf 2005, ehangwyd y drefn tir halogedig i gynnwys halogiad ymbelydrol, fel y'i sefydlwyd gan Reoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006. Creodd hyn ddull strwythuredig ar gyfer nodi ac adfer tir lle mae halogiad yn arwain at gysylltiad dynol parhaus ag ymbelydredd. Mae CNC yn trin tir sydd wedi'i halogi gan ymbelydredd fel safle arbennig.

## 1.5 Proses Rheoli Risg Tir Halogedig

1.5.1 Wrth archwilio tir halogedig, mae'n rhaid defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar risg, gan ddibynnu ar y dystiolaeth fwyaf credadwy sydd ar gael ar yr adeg honno. Mae'r weithdrefn hon wedi'i hegluro ar y tudalennau gwe Rheoli Risg Halogiad Tir, a oedd, o fis Hydref 2020, wedi disodli CLR11 fel y fframwaith technegol ar gyfer mynd i'r afael â materion tir halogedig. Mae'r broses rheoli risg tir halogedig yn cynnwys tri cham sylfaenol, pob un wedi'i rannu'n haenau ychwanegol, fel y nodir ym mewnosodiad 2 ar y dudalen ganlynol.




**Mewnosodiad 2:** yn dangos y Broses Rheoli Risg Halogiad Tir.

1.5.2 Mae'r tudalennau gwe Rheoli Risg Halogiad Tir yn berthnasol i bob endid sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli halogiad tir. Drwy gydol y broses, mae cyfraniad gan weithwyr proffesiynol cymwys sydd â chymwysterau addas ac yswiriant indemniad priodol yn hanfodol. Mae'n rhaid i ymgynghorwyr a benodir ddangos eu bod yn cadw at arferion gorau a'r egwyddorion a amlinellir yn y tudalennau gwe Rheoli Risg Halogiad Tir. Yn ogystal, mae angen ystyried dogfennau cyfarwyddyd CIRIA a Safonau Prydeinig ar wahanol gamau o'r broses, ac mae rhagor o fanylion ar gael ar y tudalennau gwe Rheoli Risg Halogiad Tir (Rheoli Risg Halogiad Tir (LCRM) - GOV.UK (www.gov.uk)).

# 2. Nodweddion Sir Gaerfyrddin

## 2.1 Cyd-destun daearyddol

2.1.1 Mae Sir Gaerfyrddin yn ne-orllewin Cymru. Mae'n ffinio â Sir Benfro i'r gorllewin, Ceredigion i'r gogledd, a Phowys, Abertawe, a Chastell-nedd Port Talbot i'r dwyrain. Mae'r sir yn adnabyddus am ei thirweddau amrywiol, gan gynnwys panoramâu arfordirol, dyffrynnoedd afonydd, ac ardaloedd ucheldirol garw.




**Mewnosodiad 3:** Map yn dangos lleoliad a maint Sir Gaerfyrddin. Dangosir ffin y sir fel llinell las.

2.1.2 Mae gan Sir Gaerfyrddin amrywiadau nodedig o ran defnydd tir. Mae gweithgareddau trefol a diwydiannol wedi'u crynhoi yn y rhanbarth de-ddwyreiniol o amgylch Llanelli, Cross Hands, a Rhydaman, gan adlewyrchu effaith y Chwyldro Diwydiannol o'r 19eg a'r 20fed ganrif. Arferion amaethyddol sydd amlycaf o hyd ar draws llawer o weddill y sir. Mae hyn yn cael ei nodweddu gan dirweddau gwledig sy'n cwmpasu trefi marchnad, pentrefi, pentrefannau, a chefn gwlad eang.

## 2.2 Cyd-destun daearegol

2.2.1 Mae daeareg creigwely Sir Gaerfyrddin yn amrywiol. Y gyfres Silwraidd sydd amlycaf yn rhanbarth mwyaf gogleddol y sir, a nodweddir gan gerrig llaid a thywodfeini o oes Llanymddyfri. Yn amgylchynu'r gyfres hon mae'r gyfres Ordofigaidd, prif strata'r sir, sy'n cynnwys cerrig llaid yn bennaf, gyda rhai tywodfeini. Mae Hen Dywodfaen Coch yn ffurfio band o'r gorllewin i'r dwyrain yng nghanol Sir Gaerfyrddin, tra bod Calchfaen Carbonifferaidd wedi'i ganoli o amgylch Pentywyn ac yn ymestyn o Gydweli i ardal i'r gogledd o Rydaman ac i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r Gyfres Grut Melinfaen yn troshaenu'r Calchfaen Carbonifferaidd mewn band cul. Mae'r gwelyau glo canolig ac is i'w cael yn ne-ddwyrain y sir.

2.2.2 Mae gan Sir Gaerfyrddin amrywiaeth eang o ddaeareg arwynebol. Mae hanes rhewlifol y sir wedi arwain at bresenoldeb eang dyddodion rhewlifol a ffrwdrewlifol. Ceir llifwaddodion hefyd yn nyffrynnoedd afonydd Tywi, Teifi a Llwchwr yn ogystal â'r ardaloedd arfordirol isel o gwmpas Pentywyn, Pen-bre a Llanelli.

**2.3 Cyd-destun hydroddaearegol**

2.3.1 Mae gan Sir Gaerfyrddin amrywiaeth o ddyfrhaenau creigwely, rhai mawr a rhai bach. Mae'r Calchfaen Carbonifferaidd, a ddynodir yn ddyfrhaen fawr gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflenwi dŵr cyhoeddus ym Mhentywyn. Mae'r ffurfiannau Hen Dywodfaen Coch a Grut Melinfaen yn gweithredu fel dyfrhaenau bach, gan gyfrannu'n lleol at ffynonellau dŵr daear, er y gallai ffawtio gael effaith bosibl ar hyn. Yn yr ardal dde-ddwyreiniol, mae'r Gwelyau Glo hefyd yn gweithredu fel dyfrhaen fach.

2.3.2 Yn ogystal, mae dyddodion llifwaddodion ar hyd afonydd Teifi, Tywi, a Llwchwr wedi'u dosbarthu'n ddyfrhaenau bach, gyda'r graean llifwaddodol yn Nyffryn Teifi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwad cyhoeddus ac amaethyddiaeth.

**2.4 Cyd-destun hydrolegol**

2.4.1 Mae nifer o gyrsiau dŵr wyneb mawr yn croesi Sir Gaerfyrddin. Afon Cleddau Ddu yw ffin orllewinol y sir. Mae dalgylchoedd afonydd Tywi, Taf, a Gwendraeth Fawr a Gwendraeth Fach yn arbennig o arwyddocaol, sy'n llifo tua'r de ac yn cydgyfeirio i greu Aberoedd y Tair Afon, gan ymarllwys i Fae Caerfyrddin yn y pen draw. Yn y rhanbarth de-ddwyrain, mae dalgylch Afon Llwchwr yn tarddu o ucheldiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan lifo tua'r de-orllewin i Gilfach Tywyn.

# 3. Cysylltiad â Pholisïau Presennol

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r gwaith o roi'r Strategaeth Tir Halogedig ar waith wedi'i integreiddio â swyddogaethau a pholisïau eraill yn y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Fe'i cynlluniwyd yn benodol i gefnogi nodau gwella'r amgylchedd, adfywio a datblygu cynaliadwy.

## 3.2 Polisi Cynllunio

3.2.1 Mae sicrhau bod tir yn cael ei adfer drwy'r drefn gynllunio, yn enwedig yn ystod gwaith ailddatblygu, yn cynnig dull effeithiol a chynaliadwy o sicrhau bod gwaith adfer yn bodloni safonau amgylcheddol ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Mae integreiddio â'r drefn gynllunio, ochr yn ochr â pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu datblygiadau newydd rhag halogiad blaenorol a sicrhau bod gwaith adfer yn bodloni safonau derbyniol.

3.2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru, a ategir gan Nodiadau Cyngor Technegol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir mai nod y system gynllunio yw rheoli datblygu tir er budd y cyhoedd, gan gyfrannu at nodau datblygu cynaliadwy. Mae'n pwysleisio cydbwyso anghenion datblygu a chadwraeth, hyrwyddo effeithlonrwydd, economi ac amwynder o ran y defnydd o dir, a diogelu adnoddau naturiol a threftadaeth hanesyddol. Mae'r egwyddorion hyn yn rhan annatod o Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

## 3.3 Strategaeth Gorfforaethol

3.3.1 Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor "Datblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n Gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais", yn nodi amcanion llesiant y cyngor, gan gynnwys:

- Galluogi ein plant a’n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau’n Dda)
- Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio’n dda (Byw a Heneiddio’n Dda)
- Gwneud ein cymunedau a’n hamgylchedd yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)
- Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)

3.3.2 Mae mynd i'r afael â thir halogedig yn cyd-fynd â nifer o'r amcanion allweddol a amlinellir yn 3.3.1. Drwy reoli safleoedd halogedig, mae'r Cyngor yn cyfrannu at greu amgylchedd diogel ac iach i bobl ffynnu, gan hyrwyddo llesiant ym mhob grŵp oedran. Mae gwaith adfer hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau ffyniannus drwy adfywio ardaloedd diffaith a hyrwyddo twf economaidd. Hefyd, mae mynd i'r afael â thir halogedig yn dangos ymrwymiad y cyngor i foderneiddio a threfniadau llywodraethu effeithlon, gan arddangos stiwardiaeth amgylcheddol ragweithiol a sicrhau bod ei weithrediadau'n gynaliadwy.

# 4. Cynnydd y Strategaeth

## 4.1 Cynnydd Cynnar

4.1.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Archwilio Tir Halogedig gyntaf Cyngor Sir Caerfyrddin ym mis Hydref 2002, gan amlinellu agenda pum mlynedd ar gyfer nodi ac archwilio tir halogedig ledled y Sir, a defnyddio methodoleg ar gyfer ardaloedd penodol.

4.1.2 Cafodd y strategaeth hon ei gwerthuso'n gynhwysfawr ym mis Hydref 2003, gan ddangos yr angen am addasiadau i ymgorffori profiad a gafwyd, a meddalwedd newydd ei chaffael (o'r enw "Geoenviron"), a hwylusodd ddull seiliedig ar risg o nodi Tir Halogedig.

4.1.3 Yn dilyn hynny, defnyddiodd y Cyngor feddalwedd Geoenviron i lunio set ddata er mwyn nodi dros 5,000 o safleoedd a allai fod yn halogedig. Roedd y safleoedd hyn yn amrywio o dir anhysbys wedi'i lenwi (fel arfer yn ymwneud â hen byllau, chwareli ac ati), i weithfeydd nwy a safleoedd tirlenwi.

4.1.4 Yn y cam cychwynnol, defnyddiodd swyddogion y feddalwedd i gynnal asesiad risg cychwynnol, gan arwain at greu 'rhestr blaenoriaethu risgiau' a oedd yn gosod safleoedd yn nhrefn blaenoriaeth o'r risg isaf i'r risg uchaf. Defnyddiwyd y rhestr hon i bennu trefn blaenoriaeth ar gyfer archwilio safleoedd.

4.1.5 Yn dilyn hynny, sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i archwilio sawl safle â blaenoriaeth uchel a nodwyd yn y rhestr. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r safleoedd hyn yn bodloni'r meini prawf i'w ddynodi'n ffurfiol yn 'Dir Halogedig' o dan Ran 2A ar ôl i'r ymchwiliadau ddod i ben.

## 4.2 Fersiynau Diweddar

4.2.1 Diwygiwyd y Strategaeth Archwilio yn 2015, sef y fersiwn ddiweddaraf. Roedd y gwaith diwygio hwn yn cyd-fynd â diweddariad 2012 i'r Canllawiau Statudol, gan gyflwyno dull diwygiedig o fynd i'r afael â halogiad tir. Bu newid amlwg yn y ffocws i ganolbwyntio ar nodi, archwilio ac adfer safleoedd yn bennaf drwy'r broses Rheoli Datblygu ac Adfywio.

4.2.2 Y ddogfen hon yw'r bedwaredd fersiwn o'r Strategaeth, gan ddisodli fersiwn 2015.

# 5. Nodau, Amcanion a Blaenoriaethau'r Strategaeth

## 5.1 Cyflwyniad

**5.1.1** Mae'r Cyngor wedi nodi pum nod allweddol i helpu i gyflawni ei amcanion a'i rwymedigaethau o ran y Canllawiau Statudol.

## 5.2 Nod 1: Cyflawni cyfrifoldebau statudol y Cyngor i roi deddfwriaeth amgylcheddol ar waith.

**5.2.1** Amcan y nod hwn yw sicrhau bod y Strategaeth Archwilio a'r modd y mae'n cael ei rhoi ar waith yn bodloni gofynion Rhan 2A.

**5.2.2** Y camau blaenoriaeth a nodwyd i gyflawni'r amcan hwn yw:

- Cydymffurfio â chyfrifoldebau rheoleiddio Rhan 2A a dilyn yr holl ganllawiau priodol sy'n ymwneud â halogiad tir.
- Parhau â'r dull rhesymegol, trefnus ac effeithlon a fabwysiadwyd i archwilio ac adolygu'n barhaus.
- Canolbwyntio'n barhaus ar nodi'r dulliau mwyaf effeithlon o ddatblygu'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig, gyda phwyslais ar y broses Datblygu ac Adfywio.
- Adrodd i Lywodraeth Cymru a CNC ar y broses archwilio safleoedd a statws safleoedd halogedig.

## 5.3 Nod 2: Lleihau'r risgiau i iechyd ac i'r amgylchedd.

**5.3.1** Amcan y nod hwn yw nodi safleoedd lle gallai halogiad tir fod yn bresennol ar lefelau annerbyniol, a allai arwain at risgiau posibl i iechyd a/neu'r amgylchedd a sicrhau bod safleoedd o'r fath yn cael eu hadfer yn llwyddiannus.

**5.3.2** Y camau blaenoriaeth a nodwyd i gyflawni'r amcan hwn yw:

- Blaenoriaethu safleoedd i'w harchwilio yn seiliedig ar risg amgylcheddol.
- Blaenoriaethu risgiau i iechyd dynol uwchlaw popeth arall.
- Sicrhau effeithlonrwydd drwy ganolbwyntio ar ardaloedd lle gellir mynd i'r afael â halogiad tir drwy gynlluniau Rheoli Datblygu neu Adfywio.

## 5.4 Nod 3: Lleihau effaith y Cyngor ar yr Amgylchedd, lle bo hynny'n bosibl.

**5.4.1** Amcan y nod hwn yw nodi safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor a allai fod yn rhai halogedig, hyrwyddo asesu risg, ac ystyried gwaith adfer os oes angen i reoli a/neu leihau rhwymedigaethau'r Cyngor fel tirfeddiannwr neu feddiannwr.

**5.4.2** Y camau blaenoriaeth a nodwyd i gyflawni'r amcan hwn yw:

- Mabwysiadu dull cyfrifol o archwilio ein tir ein hunain a delio â halogiad.
- Gweithio'n agos o fewn adrannau mewnol i sicrhau bod materion halogiad yn cael eu hystyried yn gynnar mewn prosiectau dylunio/peirianneg.
- Sicrhau dull cydlynol o ymdrin â thir halogedig yn y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau tir halogedig perthnasol a'u gorfodi.
- Cynyddu hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r Cyngor yn asesu ei ddaliadau tir ei hun.

**5.5 Nod 4: Annog archwilio neu adfer drwy adfywio ac ailddatblygu.**

**5.5.1** Amcan y nod hwn yw nodi safleoedd a allai fod yn halogedig lle gallai adfywio ac ailddatblygu hwyluso gwaith adfer a defnyddio setiau data i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch defnydd tir yn y dyfodol ar safleoedd a allai fod yn halogedig.

**5.5.2** Y camau blaenoriaeth a nodwyd i gyflawni'r amcan hwn yw:

- Darparu gwybodaeth i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i weithredu yn unol â Chanllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru.
- Annog ailddatblygu Safleoedd Tir Llwyd a gwneud y defnydd mwyaf ohonynt, gan reoleiddio'r broses mewn perthynas â Thir Halogedig.
- Darparu gwybodaeth a fydd yn helpu prosesau Rheoli Datblygu a Chynllun Datblygu Unedol.
- Darparu gwybodaeth ar gyfer briffiau cynllunio ac adfywio.

**5.6 Nod 5: Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth o faterion halogiad tir.**

**5.6.1** Amcan y nod hwn yw annog dull rhagweithiol ymhlith tirfeddianwyr, datblygwyr a llygrwyr o archwilio tir halogedig, a gwaith adfer lle bo angen.

**5.6.2** Y camau blaenoriaeth a nodwyd i gyflawni'r amcan hwn yw:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig a sicrhau ei bod ar gael yn rhwydd.
- Mabwysiadu dull tryloyw o roi'r Strategaeth Archwilio ar waith.
- Datblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cyfathrebu, cysylltu a chyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys ffurfio sianeli cyfathrebu rhyngadrannol i ddelio â Halogiad Tir drwy flaenoriaethu.

# 6 Rhoi’r Strategaeth ar Waith

## 6.1 Blaenoriaethu Risgiau

6.1.1 Fel y nodwyd yn flaenorol yn adran 4.1, mae cronfa ddata'r Cyngor yn rhoi safleoedd yn nhrefn blaenoriaeth o'r risg uchaf i'r risg isaf, gan ddilyn yr egwyddorion hyn:

- Mae safleoedd sy'n achosi neu yr amheuir eu bod yn achosi niwed sylweddol i dderbynyddion neu lygredd sylweddol i ddyfroedd a reolir yn brif flaenoriaeth.
- Mae pryderon iechyd dynol yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn seiliedig ar ba mor ddifrifol yw'r niwed neu'r llygredd.
- Mae safleoedd sydd â gwybodaeth a gynigir gan berson priodol, fel sy'n cael ei annog gan Ran 2A, yn cael blaenoriaeth uwch.
- Mae safleoedd yr amheuir eu bod yn achosi niwed neu lygredd sylweddol posibl yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar effeithiau ar iechyd dynol.
- Mae natur a maint posibl y niwed neu'r llygredd hefyd yn dylanwadu ar y broses o flaenoriaethu safleoedd.

## 6.2 Gweithdrefn Archwilio Safleoedd

6.2.1 Mae'r weithdrefn archwilio safleoedd, fel y disgrifir yn y canllawiau statudol, yn blaenoriaethu ac yn archwilio safleoedd mewn modd hyblyg. Mae blaenoriaethau risg safleoedd yn cael eu hadolygu'n barhaus wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael, megis yn sgil ymchwiliadau cynllunio. Ar bob cam, gwneir penderfyniadau ynghylch y tebygolrwydd o bennu safle yn dir halogedig neu ei ailflaenoriaethu i gategori risg is.

6.2.2 Yn y dyfodol bydd strategaeth y gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer archwilio Tir Halogedig yn adlewyrchu'r dull a amlinellir yn nogfen 2015 i raddau helaeth. I raddau helaeth mae'r dulliau archwilio yn unol â llawer o'r nodau a amlinellir yn adran 5 y ddogfen hon.

## 6.3 Cynllunio – Polisi Rheoli Datblygu a Chynllunio

6.3.1 Bydd y gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn bennaf yn nodi safleoedd a allai fod yn halogedig drwy'r drefn gynllunio, lle bydd hefyd yn sicrhau asesiad risg priodol a gwaith adfer.

6.3.2 Caiff ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae halogiad tir yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio.

6.3.3 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol sy'n ymwneud â datblygiadau arfaethedig ar dir a allai fod yn halogedig. Mae hyn fel arfer yn digwydd pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd i wneud sylwadau ar geisiadau, ond ceisir gwirio

rhestrau cynllunio wythnosol i sicrhau bod pob cais yn cael ei adolygu lle bo hynny'n bosibl.

6.3.4 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd fel arfer yn cynghori'r Awdurdod Cynllunio Lleol i beidio â phenderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau y mae halogiad tir yn effeithio arnynt hyd nes bod yr ymgeisydd yn cyflwyno tystiolaeth foddhaol o ymchwiliad cynhwysfawr, asesiad risg, ac, os oes angen, strategaeth adfer. Mae hyn yn sicrhau y gellir defnyddio'r tir yn ddiogel fel y bwriadwyd cyn ei gymeradwyo. Mae hyn yn unol ag Adran 6.9.19 o Bolisi Cynllunio Cymru.

6.3.5 Gall y gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd hefyd, lle bo'n briodol, awgrymu amodau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hatodi i benderfyniadau caniatâd cynllunio, gan gynnwys cyfyngiadau ar ddatblygu o bosibl hyd nes bod yr ymgeisydd wedi nodi, asesu a mynd i'r afael yn ddigonol ag unrhyw halogiad tir.

6.3.6 Yn unol â pharagraff 5.55 o gylchlythyr Llywodraeth Cymru (LlC) 'Defnyddio amodau cynllunio i reoli datblygu' (cyf: WGC 016/2014), gall y gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd awgrymu amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr roi gwybod i'r awdurdod cynllunio am unrhyw halogiad sylweddol annisgwyl sydd wedi'i ganfod ar safle wrth ei ailddatblygu.

6.3.7 Yn unol â gofynion datblygu cynaliadwy, mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn ystyried paragraff 5.56 o gylchlythyr Llywodraeth Cymru (cyf: WGC 016/2014) wrth gyflwyno ymatebion i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, lle "mae'n rhaid i lefel y gwaith sy'n ofynnol fod yn gymesur â'r problemau a ragwelir ac ni ddylid gosod yr amodau mwy beichus fel mater o drefn."

6.3.8 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn dosbarthu dogfen ganllaw ar y cyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru "Datblygu Tir sydd wedi'i Halogi: Canllaw i Ddatblygwyr" lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys fel rhan o ymatebion cynllunio.

6.3.9 Fel prif reoleiddiwr o dan Ran 2A, mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn gohebu ag ymgynghorwyr a chontractwyr a benodir gan ddatblygwyr neu dirfeddianwyr i archwilio ac adfer tir halogedig ar safleoedd datblygu.

6.3.10 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lle bo hynny'n briodol i sicrhau nad yw'r gwaith o ddatblygu safleoedd yn bygwth dyfroedd a reolir.

6.3.11 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn adolygu'n feirniadol adroddiadau a gyflwynir gan ymgynghorwyr neu gontractwyr ar ran y datblygwr neu'r tirfeddiannwr.

6.3.12 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn rhybuddio adrannau Rheoli Datblygu a Chynllunio y Cyngor, er mwyn caniatáu cymryd camau gorfodi lle bo'n briodol yn erbyn

datblygwyr sy'n methu â chydymffurfio ag amodau cynllunio sy'n gysylltiedig â halogiad tir neu'n datblygu tir a allai fod yn halogedig heb ganiatâd.

6.3.13 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn darparu cyngor cyn cynllunio i'r adran gynllunio ar gais.

6.3.14 Yn unol ag adran 6.9.17 o Bolisi Cynllunio Cymru, mae Diogelu'r Amgylchedd yn ceisio cadarnhau bod penderfyniadau rheoli datblygu yn sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y defnydd ohono sydd mewn golwg ac na fyddai'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o dir halogedig o dan Ran 2A. Fodd bynnag, dylid nodi bod Paragraff 6.9.14, o Bennod 6 'Lleoedd Unigryw a Naturiol', dogfen 'Polisi Cynllunio Cymru' Llywodraeth Cymru yn nodi: "Cyfrifoldeb y datblygwr ym mhob achos yw pennu hyd a lled ac effeithiau peryglon ar yr wyneb ac islaw'r wyneb. Y datblygwr sydd i sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad mewn golwg, gan nad oes gan awdurdod cynllunio ddyletswydd gofal i dirfeddianwyr."

6.3.15 Ar ôl cwblhau asesiad risg a gwaith adfer ar y safle, bydd y gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn diweddaru ei gronfa ddata o safleoedd a allai fod yn halogedig yn unol â hynny i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

**6.4 Dulliau archwilio eraill**

6.4.1 Bydd y gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn ceisio nodi prosiectau adfywio a arweinir gan y cyngor ar dir a allai fod yn halogedig, a bydd yr adran hon yn annog cynnal asesiad risg priodol ac (os oes angen) gwaith adfer. Gall hyn ddigwydd ochr yn ochr â'r drefn gynllunio.

6.4.2 Mae'r holl ymholiadau, cwynion neu wybodaeth am dir halogedig sy'n dod i law gan y cyhoedd, busnesau neu sefydliadau eraill yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd. Mae'r wybodaeth yn cael ei hasesu a'i gwerthuso i benderfynu pa mor ddifrifol ac arwyddocaol yw hi. Gall y gwerthusiad hwn arwain at ailflaenoriaethu'r safle i'w archwilio neu ei ystyried yn fater brys. Mae hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i benderfynu ar lefel risg y safle. Fel arall, gallai awgrymu y dylid mynd i'r afael â materion halogiad tir ar y safle drwy fframwaith rheoleiddio arall neu gyrff rheoleiddio eraill.

6.4.3 Darperir ymatebion gan yr adran hon i ymholiadau ynghylch chwiliadau eiddo a gyflwynir gan adain Pridiannau Tir yr Awdurdod neu drwy ddulliau eraill. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn helpu'r Cyngor i bennu lefel risg safle. Fel arall, gallai awgrymu y dylid mynd i'r afael â materion halogiad tir ar y safle drwy fframwaith rheoleiddio arall neu gyrff rheoleiddio eraill.

6.4.4 Mae'r gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn parhau i fod ar gael i gydweithio â thirfeddianwyr yn wirfoddol lle gwyddys bod halogiad tir posibl.

# 7 Rheoli Gwybodaeth a Gweithdrefnau

**7.1 Pwy sy'n darparu gwybodaeth am dir halogedig yng Nghyngor Sir Caerfyrddin?**

7.1.1 Mae'r Gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn gyfrifol am weithredu Rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'r Gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd yn ymdrin â phob ymholiad ynghylch tir halogedig.

**7.2 Darparu gwybodaeth i drydydd partïon**

7.2.1 Mae'r gwaith o roi'r Strategaeth Archwilio ar waith wedi arwain at gasglu gwybodaeth helaeth a allai fod yn ddefnyddiol i drydydd partïon ac sydd ar gael ar gais. Mewn rhai achosion, bydd y Cyngor yn codi tâl am gasglu gwybodaeth ar gyfer chwiliadau. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydymffurfio â'r statudau a'r rheoliadau canlynol i sicrhau bod y cyhoedd yn cael mynediad at wybodaeth amgylcheddol:

- Deddf Llywodraeth Leol 1985
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

**7.3 Cofrestr Gyhoeddus Tir Halogedig**

7.3.1 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor gofnodi unrhyw gamau gorfodi a gymerir o dan drefn Rhan 2A. Gellir gweld y wybodaeth hon ar gais.

**7.4 Digwyddiadau Llygredd a Chwynion**

7.4.1 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau, cwynion neu wybodaeth am dir halogedig gan y cyhoedd, busnesau neu sefydliadau eraill at y Gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hasesu ar sail safle-benodol i benderfynu pa mor ddifrifol ac arwyddocaol yw hi, a allai arwain at ailflaenoriaethu'r safle i'w archwilio neu ei ystyried yn fater brys. Gall hefyd helpu'r Cyngor i bennu lefel risg y safle neu nodi y dylid mynd i'r afael â'r materion halogiad drwy drefn reoleiddio arall.

7.4.2 Bydd asesiad cychwynnol yn pennu a yw'r ymholiad yn dod dan y tîm Diogelu'r Amgylchedd neu, os yw'n effeithio ar ddyfroedd a reolir, o dan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

7.4.3 Ar gyfer digwyddiadau difrifol/mawr sy'n peri risg uniongyrchol, bydd Tîm Cynlluniau Argyfwng y Cyngor Sir yn cydlynu'r ymateb angenrheidiol.

7.4.4 Bydd ymholiadau i'r awdurdod lleol a'r wybodaeth a ddarperir yn cael eu trin yn gyfrinachol lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn gorfodi Awdurdodau Lleol i ddatgelu cofnodion a dogfennau penodol. Bydd ymholiadau a gwybodaeth ddienw yn cael eu derbyn a bydd camau yn cael eu cymryd yn unol â nhw lle bo hynny'n bosibl, er eu bod yn gallu cael blaenoriaeth is ac achosi heriau wrth archwilio oherwydd gwybodaeth gyfyngedig.